Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD

# Taliadau Gwledig Cymru (RPW): diweddariad gwasanaeth Mehefin 2023 ynghylch prosiectau ar-lein Rhaglen Datblygu Gwledig, Taliadau Gwledig Cymru (RPW)

Latest service update on Sustainable Production Grant (SPG), Rural Business Investment Scheme (RBIS) Food and Non-Agriculture Cooperation Supply Chain Development (CSCD). Diweddariad gwasanaeth diweddaraf ar Grant Cynhyrchu Cynaliadwy (SPG), Cynllun Buddsoddi Mewn Busnesau Gwledig (RBIS) Bwyd ac Anamaethyddol, a Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio (CSCDS)

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 9 Mehefin 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 9 Mehefin 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/taliadau-gwledig-cymru-rpw-diweddariad-gwasanaeth-mehefin-2023-ynghylch-prosiectau-ar-lein-rhaglen** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Prosiectau sydd â chontractau â dyddiad dod i ben o 30 Mehefin 2023

Y Gofrestr Wariant a chofnodion Tendro Cystadleuol

Archwilio prosiectau yn fewnol

Ymholiadau am brosiectau

Y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/taliadau-gwledig-cymru-rpw-diweddariad-gwasanaeth-mehefin-2023-ynghylch-prosiectau-ar-lein-rhaglen** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Prosiectau sydd â chontractau â dyddiad dod i ben o 30 Mehefin 2023

Disgwylir bod pob prosiect sydd â chontract â dyddiad dod i ben o 30 Mehefin 2023 wedi ysgwyddo holl wariant cymwys y prosiect erbyn y dyddiad hwn yn ogystal â chyflwyno eu hawliad terfynol **erbyn 7 Gorffennaf 2023 fan bellaf**.

Os oes gennych eitemau neu weithgareddau buddsoddi o ran y prosiectau sydd wedi'u proffilio cyn neu ar gyfer mis Mehefin 2023, rhaid i chi gyflwyno eich hawliad(au) terfynol **erbyn 7 Gorffennaf 2023** drwy'r cais am hawliad sydd ar gael ar eich cyfrif Taliadau Gwledig Cymru (RPW) Ar-lein.

## Y Gofrestr Wariant a chofnodion Tendro Cystadleuol

Cofiwch gyflwyno'r wybodaeth sy'n ymwneud â thendro cystadleuol i RPW i'w chymeradwyo cyn cyflwyno'ch cais.

Ar gyfer eitemau prosiectau **dros £500 ac o dan £5,000:**

- cyflwynwch gofnod Tendro Cystadleuol ar gyfer cymeradwyo gwariant

Ar gyfer eitemau prosiectau **dros £5,000:**

- cyflwynwch gofnod Tendro Cystadleuol ar gyfer cymeradwyo gwariant
- cyflwynwch dystiolaeth ategol h.y. copïau o 3 dyfynbris a gafwyd

Gellir dod o hyd i'r Cofnodion Tendro Cystadleuol gan ddilyn y ddolen hon: **Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 i 2020: templedi cofnod tendro cystadleuol a chaffael cyhoeddus.**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/taliadau-gwledig-cymru-rpw-diweddariad-gwasanaeth-mehefin-2023-ynghylch-prosiectau-ar-lein-rhaglen** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Archwilio prosiectau yn fewnol

Mae'n ofynnol i RPW gynnal archwiliad mewnol ar bob prosiect cyn y gellir rhyddhau'r taliad terfynol.

Bydd yr archwiliad yn gwirio:

- bod eitemau a hawlir yn eu lle
- tystiolaeth o wariant y prosiect, lle bo'n briodol
- bod allbynnau a dangosyddion ar gyfer eich prosiect wedi'u bodloni, a
- bod amodau arbennig sydd o dan gontract wedi'u cwblhau

Bydd angen i brosiectau'r Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio (CSCDS) ddarparu adroddiadau gwerthuso hefyd.

Er mwyn helpu i leihau'r amser sydd ei angen ar gyfer cynnal yr archwiliad yn ogystal ag osgoi oedi gyda'ch taliad terfynol, gofynnwn ichi ddechrau casglu'r wybodaeth o dan sylw cyn yr archwiliad.

Lle bo'n briodol, byddwn hefyd yn ysgrifennu atoch cyn yr archwiliad ac yn rhoi rhagor o fanylion ichi am yr wybodaeth y bydd angen ichi ei chyflwyno.

# Ymholiadau am brosiectau

Dylid cyfeirio a chyflwyno pob ymholiad a thystiolaeth ddogfennol:

- i Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW, neu
- drwy eich cyfrif diogel RPW ar-lein

Os nad ydych yn gallu cael mynediad at eich cyfrif RPW ar-lein, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid yn syth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/taliadau-gwledig-cymru-rpw-diweddariad-gwasanaeth-mehefin-2023-ynghylch-prosiectau-ar-lein-rhaglen** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid

Mae gwasanaeth ffôn y **Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid** yn gweithredu fel a ganlyn:

| Cyfnod | Oriau agor |
|---|---|
| Dydd Llun i ddydd Gwener | 9:00am tan 4:00pm |

Lle bo'n bosibl, dylid cyflwyno ymholiadau neu geisiadau cyffredinol ynghylch prosiectau drwy'r cyfrif RPW ar-lein sydd ar gael 24 awr y dydd.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/taliadau-gwledig-cymru-rpw-diweddariad-gwasanaeth-mehefin-2023-ynghylch-prosiectau-ar-lein-rhaglen** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.